# Cofnodion cryno - Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 12 Mai 2020

Amser: 10.00 - 11.05

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/6324) yn:

[http://senedd.tv/cy/6324](http://senedd.tv/cy/6324)

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Helen Mary Jones AS (Cadeirydd dros dro)<br>Mick Antoniw AS<br>John Griffiths AS<br>Carwyn Jones AS<br>David Melding AS |
| Tystion: | Dafydd Elis-Thomas AS, Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth<br>Jason Thomas, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Manon George (Clerc)<br>Martha Da Gama Howells (Ail Glerc)<br>Robin Wilkinson (Ymchwilydd)<br>Manon Huws (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir cyntaf y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu.

1.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

1.3 Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cytuno, yn unol â Rheol Sefydlog 17.22, y byddai David Melding AS yn dod yn Gadeirydd Dros Dro pe bai hi'n gadael y cyfarfod am unrhyw reswm.

1.4 Ni chafwyd ymddiheuriadau na datganiadau o fuddiant.

## 2 COVID-19: Sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru

2.1 Holodd yr Aelodau y Dirprwy Weinidog a'i swyddogion am Covid-19 a'i effaith ar feysydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, ac ymateb ei adran hyd yma i'r pandemig.

## 3 Papurau i'w nodi

Nododd y Pwyllgor y papurau a ganlyn:

### 3.1 Gohebiaeth â'r BBC

Cytunodd yr aelodau i ysgrifennu at Gyfarwyddwr Cenhedloedd a Rhanbarthau'r BBC i egluro nad darlledwr lleol yw BBC Cymru.

### 3.2 Gohebiaeth gan Rwydwaith Radio Cymunedol Cymru

Cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru am y materion a godwyd yn y llythyr gan Rwydwaith Radio Cymunedol Cymru.

### 3.3 Gohebiaeth â Media Wales

Cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru am y materion a godwyd yn y llythyr gan Media Wales.

### 3.4 Brîff gan BBC Cymru

Nododd yr Aelodau y papur.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Ni chyrhaeddwyd yr eitem hon.

## 5 Ymchwiliad i'r achosion o COVID-19 ac effaith y feirws ar ddiwylliant, y diwydiannau creadigol, treftadaeth a chwaraeon: cytuno ar y cylch gorchwyl

5.1 Ni chyrhaeddwyd yr eitem hon. Cytunodd yr Aelodau ar y cylch gorchwyl yn electronig.